Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanrhaeadr Ym Mochnant Primary School
**Llanrhaeadr Ym Mochnant**
**Croesoswallt**
**Powys**
**SY10 0LG**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a’i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae’r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae’r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy’n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella’n |
| **Digonol** | Mae cryfderau’n gorbwyso’r meysydd i’w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae’r meysydd pwysig i’w gwella yn gorbwyso’r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/04/2013**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Llanrhaeadr-ym-Mochnant, yng ngogledd Powys, pentref sydd o fewn pum milltir i'r ffin â Lloegr. Cynhelir yr ysgol gan awdurdod addysg Powys. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas. Disgrifia'r ysgol yr ardal y daw'r plant ohoni fel un sydd, ar y cyfan, yn weddol ffyniannus.

Mae 78 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cynnwys plant meithrin rhan amser. Mae'r niferoedd wedi bod yn weddol gyson dros y tair mlynedd diwethaf. Mae dwy ffrwd ieithyddol yn yr ysgol, gyda'r naill a'r llall yn cynnwys dosbarth o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Mae'r ffrwd Gymraeg wedi ei sefydlu ers 1998. Daw 37% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Nid does unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Mae 4% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sydd yn llawer is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae 19% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion dysgu ychwanegol sy'n ychydig is na'r ffigwr cenedlaethol (21.2%) Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Mai 2011.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn 2012-2013 yw £3,784. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Powys yw £8,253 a'r lleiafswm yw £3,087. Mae Ysgol Gynradd Llanrhaeadr-ym-Mochnant yn safle 41 allan o'r 99 ysgol gynradd ym Mhowys o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Llanrhaeadr ym Mochnant yn ddigonol gan fod:

- yr addysgu yn gyson dda;
- strategaethau yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau darllen mwyafrif y disgyblion;
- safonau ymddygiad a phresenoldeb yn dda iawn;
- bod gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda, a bod cydweithio da ymysg staff yr ysgol yn hybu dysgu effeithiol; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae cyfle cyfartal a chyd-ddysgu effeithiol rhwng disgyblion y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg.

Er hynny:

- nid yw cynlluniau gwaith cyfredol cyfnod allweddol 2 yn sicrhau digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion;
- nid yw'r broses asesu a thracio cynnydd disgyblion wedi datblygu'n llawn i dargedu grwpiau penodol er mwyn codi safonau;
- nid oes gweithdrefnau a systemau priodol yn eu lle ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; ac
- nid yw trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion yn llawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda yn dda gan fod:

- y pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac wedi cyflwyno nifer o strategaethau i godi safonau llythrennedd;
- ymwybyddiaeth gadarn gan y staff o berfformiad yr ysgol a dealltwriaeth glir o safonau cyflawniad;
- data cymharol yn cael ei ddadansoddi'n effeithiol i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella; a
- chynllun datblygu'r ysgol o ansawdd da ac yn cynnwys blaenoriaethau priodol a thargedau meintiol ar gyfer gwelliant.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd a chodi safonau ysgrifenedig estynedig yn y ddwy iaith ar draws ystod o bynciau yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella trefniadau'r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

A4 Sicrhau bod y llywodraethwyr yn ymateb yn llawn i rai pryderon ynghylch trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu plant

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr i fod yn gyfeillion beirniadol

A6 Blaenoriaethu a monitro effaith mentrau'n fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n llwyddiannus ar draws ystod o feysydd dysgu. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac mae llawer ohonynt yn barod i rannu syniadau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn i'r disgyblion gyrraedd brig yr ysgol, mae llawer yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith, er bod geirfa gyfyng yn amharu ar gynnydd llafar Cymraeg disgyblion y ffrwd Saesneg.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddefnyddio geirfa a chystrawen sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Yn yr ychydig enghreifftiau gorau, mae disgyblion yn ysgrifennu'n rhydd ac yn estynedig gan atalnodi eu gwaith yn dda.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifenedig a hynny yn y ddwy iaith. Yn yr esiamplau o waith estynedig a welwyd, roedd gan y rhan fwyaf o'r disgyblion afael cadarn ar gystrawen brawddegol a hynny yn y ddwy iaith. Defnyddia'r disgyblion eirfa bwrpasol yn ymwneud â'r thema, gydag ychydig o ddisgyblion yn defnyddio geirfa eang. Er hynny, mae llawer o'r gwaith ysgrifenedig yn llyfrau'r disgyblion yn fyr o ran cynnwys ac mae diffyg geirfa ac anghysondeb wrth atalnodi yn amharu ar ansawdd gwaith gorffenedig ychydig o ddisgyblion. Mae safonau ysgrifennu Cymraeg ail iaith mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen yn y ddwy iaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant i safon syn briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth briodol o'r hyn maent yn ei ddarllen. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu a Chymru ar wahân i sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a mathemateg. Mae perfformiad yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y ddau faes dysgu hyn, er nad yw hyn yn adlewyrchiad o'r safonau a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig wedi codi ymhob pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) ers 2009.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio ac wedi bod yn is is na'r teulu o ysgolion a Chymru dros gyfnod o amser ac eithrio'r Gymraeg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched, ac eithrio ar ddeilliant 6 mewn sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Saesneg, ac ar y lefelau uwch yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2. Dros gyfnod o amser, mae bechgyn yn cyflawni'n well na'r merched ar y lefelau uwch (lefel 5+).

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn deall yr angen i fwyta'n iachus ac i ofalu am eu hunain drwy weithgareddau corfforol a phrynu ffrwythau a byrbrydau iach o siop yr ysgol.

Mae bron pob disgyblion yn hapus yn yr ysgol, yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Cydweithiant yn dda ag eraill. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau cymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Nid yw hyn wedi datblygu'n llawn yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ymddygiad ar draws yr ysgol yn dda iawn ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos parch at oedolion a'u cyfoedion. Mae presenoldeb yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol, pwyllgor eco a'r cyngor chwaraeon yn cymryd rhan weithredol iawn wrth wneud penderfyniadau addas am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r cynghorau hyn yn rhan weithredol o fywyd yr ysgol a chaiff safbwyntiau eu clywed a'u hystyried. Mae eu hymroddiad i'r pentref a'r gymuned leol yn arbennig o dda. Enghraifft o hyn yw cyfraniad y disgyblion i gyngherddau yn yr ardal leol a'u rôl yn agoriad swyddogol y neuadd bentref newydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol, gan wneud defnydd effeithiol o themâu i gyflwyno'r cwricwlwm.

Mae cydweithio agos rhwng athrawon y ddwy ffrwd ieithyddol. Er hynny, nid yw'r cynlluniau gwaith cyfredol yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos yn glir ddatblygiad yn y medrau. Mae diffyg manylder yn y cynllunio ac nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Neilltuir llawer o amser ar gyfer gwasanaethau cyd addoli, gyda hyn yn cyfyngu ar yr amser sydd yn cael ei neilltuo ar gyfer rhai agweddau ar y gweithgareddau dysgu.

Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i'r dimensiwn Cymreig, ac mae'r traddodiadau Cymraeg yn cael eu dathlu trwy gynnal eisteddfod ysgol yn ogystal â chymryd rhan yn eisteddfodau'r pentref a'r Urdd. Mae'r ysgol yn hefyd yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus trwy astudio hanes William Morgan, a gwaith Eurig Salisbury a Kyffin Williams.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dinasyddiaeth fyd eang o fewn y cwricwlwm yn datblygu'n addas. Enghraifft o hyn yw'r gwaith ar Batagonia a St Lucia.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau bywiog a chwestiynu treiddgar yn sicrhau dealltwriaeth y disgyblion.

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae cydgynllunio yn hybu dysgu effeithiol. Mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi yn creu ethos gweithgar ac yn darparu cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Er hynny, nid yw'r addysgu bob tro, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion feddwl drostynt eu hunain, ac nid yw'r tasgau bob tro yn ymestyn digon ar y disgyblion o allu uwch.

Mae systemau asesu ar gyfer dysgu priodol ar waith, ond nid ydynt eto wedi datblygu'n llawn ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac yn yr enghreifftiau gorau, rhoddir sylwadau adeiladol ar sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol ac nid yw'r sylwadau bob tro yn cyfeirio'n ddigon penodol at y meini prawf llwyddiant, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn asesu gwaith y disgyblion yn ffurfiol yn rheolaidd. Er hynny, nid yw'r broses wedi datblygu'n llawn ac nid yw'n cael ei defnyddio'n ddigon effeithiol i adnabod carfannau o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu nac i olrhain cynnydd. Gwneir defnydd priodol o bortffolios a phroffiliau disgyblion i gryfhau adnabyddiaeth yr athrawon o feini prawf lefelau a deilliannau. Serch hynny, nid ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol i sicrhau dilysrwydd cyflawniadau ar y lefelau uwch.

Mae trefniadau ar gyfer gosod targedau personol ar gyfer disgyblion yn datblygu'n addas, ond nid ydynt bob tro yn ddigon penodol nac yn ddigon heriol. Nid yw dealltwriaeth y disgyblion o'r hyn sydd ei angen i wella eu gwaith wedi datblygu'n llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan yr awdurdod.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r cyfnodau i fyfyrio ac amser addoli yn amlwg ym mywyd yr ysgol ac mae gwerthoedd megis parch a thegwch yn cael eu meithrin yn dda.

Defnyddia'r ysgol amrywiaeth o brofion safonol ac asesiadau'n addas ar gyfer adnabod yn gynnar y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysg yn bodoli ar gyfer grwpiau o disgyblion, serch hynny, nid yw'r targedau bob amser yn ddigon penodol i ymateb i anghenion yr unigolyn. Mae'r ysgol wedi dechrau nodi disgyblion mwy abl a thalentog er mwyn diwallu eu hanghenion yn well.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn destun peth pryder. Nid yw holl staff yr ysgol ddigon sicr o'r drefn i'w dilyn mewn ymateb i faterion a allai godi yn ymwneud â diogelwch disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, ofalgar a chroesawgar ac mae yna ymdeimlad o barch a chydweithio'n bodoli. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac mae disgyblion yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o dimau chwaraeon ac i fynychu gweithgareddau ar ôl ysgol. Hyrwyddir cydraddoldeb ar sail iaith yn llwyddiannus drwy sicrhau bod cydbwysedd rhwng gweithgareddau Cymraeg a Saesneg yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu lliwgar ac ysgogol sy'n fodd i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae pob dosbarth yn ddeniadol a'r arddangosfeydd yn dangos gwaith cyfredol y disgyblion.

Mae ansawdd yr adeilad a'r adnoddau dysgu yn dda iawn ac mae'r staff a'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt.

Caiff y safle a'r adeilad ei chadw'n raenus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n ei rhannu'n llwyddiannus gyda staff, disgyblion a'r llywodraethwyr. Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac wedi cyflwyno nifer o strategaethau priodol i godi safonau llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r sylw i ddatblygu safonau darllen disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur rhai o'r prosesau hyn ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae gan holl staff yr ysgol ddisgrifiadau swyddi ac mae pob un yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae pob aelod o staff yn cael cyfleoedd priodol i gyfrannu tuag at adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac mae eu dealltwriaeth o safonau'r ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion y teulu yn datblygu'n dda.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i fywyd yr ysgol. Derbynia'r llywodraethwyr adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac maent yn ymwybodol o gryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac mae ganddynt wybodaeth briodol o berfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn cynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a'r ffocws diweddar ar lythrennedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol y rhoi darlun clir o berfformiad yr ysgol. Mae'r broses hunanarfarnu yn cymryd i ystyriaeth yn briodol y trafodaethau staff, archwilio dogfennau, dadansoddiad o ddata a barn disgyblion. Adnabyddir cryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Er hynny, mae'r ddogfen mewn mannau yn rhy ddisgrifiadol. Mae llawer o fentrau wedi eu cyflwyno i wella agweddau ar y ddarpariaeth, ond nid yw'r ysgol eto'n monitro effeithiolrwydd y prosesau hyn a'u heffaith ar safonau a deilliannau disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae cyswllt clir rhwng y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae cynllun datblygu'r ysgol o ansawdd da ac yn cynnwys blaenoriaethau priodol a thargedau meintiol ar gyfer gwelliant, sy'n dynodi amser, cyllid, camau gweithredu, personau cyfrifol a'r dull monitro yn briodol. Caiff data cymharol ei ddadansoddi'n addas i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella, ynghyd â chanlyniadau profion safonol.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol mewn cymuned ddysgu broffesiynol o fewn yr ysgol i ddatblygu medrau llythrennedd. Mae'r ysgol yn rhan o gymuned ddysgu broffesiynol sy'n dechrau cael effaith ar safonau darllen a sillafu'r disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod o bartneriaethau llwyddiannus gyda'r gymuned a'r teulu o ysgolion y dalgylch. Ceir cysylltiadau da iawn gyda rhieni a gofalwyr, gyda phob un yn gefnogol i waith yr ysgol. Mae ymwelwyr o'r gymuned yn cyfrannu'n rheolaidd at fywyd yr ysgol ac mae'r disgyblion yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb. Mae hyn oll yn cael dylanwad cadarnhaol ar y dysgu.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ysgolion yr ardal ar brosiectau amrywiol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaed ar Ddyffryn Tanat sydd wedi cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol. Mae ysgolion yr ardal yn cynnal hyfforddiant ar y cyd ac yn gweithio ar brosiectau i godi safonau ysgrifennu a mathemateg. Mae partneriaethau agos ac effeithiol yn bodoli rhwng sefydliadau'r cylch meithrin a chylch 'Ti a fi' sy'n hybu trosglwyddo llwyddiannus.

Mae trefniadau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd yn dda ac yn paratoi'r disgyblion yn effeithiol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae trefniadau addas ar gyfer cymedroli a safoni gwaith disgyblion.

Sefydlwyd partneriaethau priodol gydag asiantaethau allanol fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, sefydliadau cymunedol a'r awdurdod lleol, sydd yn cyfrannu eu harbenigedd i gefnogi gwaith yr ysgol pan fo angen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staffio i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r cynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Defnyddir arbenigedd staff yn effeithiol i gyfoethogi profiadau'r disgyblion ym myd chwaraeon a chelf.

Mae systemau rheoli perfformiad wedi ymsefydlu'n briodol yn yr ysgol. Caiff yr hyfforddiant ei gysylltu'n glir â blaenoriaethau ysgol.

Gwna'r athrawon ddefnydd priodol o gyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynnal safonau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo a chyfoethogi'r addysgu. Gwneir defnydd effeithiol o neuadd yr ysgol ar gyfer clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol, yn ogystal â chlwb yr Urdd.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn talu sylw dyledus i reoli adnoddau, staffio a chyllid. Mae'r pennaeth a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn adolygu gwariant yr ysgol yn rheolaidd.

O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Saesneg a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru.  Nid yw cyflawniadau mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ac mewn mathemateg yn cymharu cystal ag yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim yn y ddau faes dysgu hyn.  Yn gyffredinol, nid yw perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 cystal, ac eithrio mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Saesneg.

Yn 2010 a 2011, llwyddodd pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (DPC).  Yr un yw'r darlun yn y pynciau unigol.  Mae hyn yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd pan nad oedd cyflawniadau disgyblion 11 oed yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion y teulu, awdurdod a Chymru.  Yn 2012, mae perfformiad yr ysgol wedi gostwng ymhob pwnc, ac eithrio'r Gymraeg.  Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2 wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, ond wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn 2010 a 2011 ymhob pwnc craidd o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.  Nid yw'r darlun mor gadarnhaol yn 2012.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) wedi amrywio ac wedi bod yn is na'r teulu o ysgolion, yr awdurdod a Chymru dros gyfnod o amser ac eithrio'r Gymraeg.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched, ac eithrio ar ddeilliant 6 mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Saesneg, ac ar y lefelau uwch yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.  Dros gyfnod o amser mae bechgyn yn cyflawni'n well na'r merched ar y lefelau uwch (lefel 5+).

Mae cyflawniad y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn cymharu'n ffafriol â chyflawniadau gweddill y disgyblion.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 40 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer bron pob agwedd.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn nodi eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac mae pob un yn nodi bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pob disgybl yn gwybod beth i wneud ac â phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd. Mae pob disgybl yn credu bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae bron pob un yn nodi bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae pob un o'r disgyblion yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni. Mae llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo bod y plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Derbyniwyd 36 o ymatebion gan rieni**

Mae ymatebion y rhieni yn gadarnhaol iawn ac yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae bron pob rhiant yn cytuno neu yn cytuno'n gryf bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol a'u bod yn teimlo'n ddiogel yno. Mae bron pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da. Mae bron pob rhiant yn cytuno bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. Mae'r rhan fwyaf yn cytuno bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol tra mae llawer o'r rhieni yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn. Mae llawer o rieni yn teimlo'n ddiogel ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem, ac yn ymwybodol o drefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae bron pob rhiant yn teimlo bod eu plentyn yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae llawer o rieni yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Meinir Howells | Arolygydd Tîm |
| Barry Norris | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Mair Curruthers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Wendy Jones | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.